# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

# DYDD IAU, 7 MEDI 2023

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd W.T. Evans (Is-gadeirydd yn y Gadair) (Yn y siambr)

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
H.A.L. Evans F. Walters P.T. Warlow

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Y Cynghorydd AG. Morgan (Gwahoddiad i fynychu yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn y Siambr)**
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [yn cymryd nodiadau]
M. Runeckles, Swyddog Cymorth Aelodau [gwe-ddarlledu]

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn rhithwir):**
G. Morgan, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Pen-swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 10.10 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9FED O FEHEFIN 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2023 gan eu bod yn gywir.**

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2022/23

Cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y materion allweddol a ystyriwyd, ynghyd â'r canlyniadau cysylltiedig mewn perthynas â rôl a swyddogaeth y Pwyllgor, rhaglen ymsefydlu aelodau, polisi cyfarfod aml-leoliad, arolwg amserau cyfarfodydd a blaenraglen waith y Pwyllgor. Amlygodd yr adroddiad, er bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wedi

cyfarfod unwaith yn unig, fod aelodau'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn anffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd i weld a chyfrannu at borth aelodau diwygiedig wedi'i ddiweddaru ar gyfer ymholiadau aelodau etholedig, gydag adborth yr aelodau yn ffurfio'r adroddiad terfynol yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor ym mis Mehefin 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i fod ar gael i aelodau'r Cyngor er gwybodaeth.**

## 5. SWYDDOGAETH GRAFFU CYNGOR SIR CAERFYRDDIN - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol 2022/23 Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch ei Swyddogaeth Graffu a oedd yn rhoi trosolwg o Swyddogaeth Graffu'r Cyngor ac yn cyfeirio'n benodol at y gwaith yr oedd y pum Pwyllgor Craffu wedi ymgymryd ag ef:

- Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol
- Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio
- Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg
- Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at rôl allweddol y pwyllgorau craffu o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol, roedd yn adnodd gwerthfawr o ran sicrhau bod polisïau'r cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau presennol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu fod y Pwyllgor Craffu wedi cael ei ddiweddaru gan y Cyngor yn dilyn etholiadau Mai 2022 lle daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am drosolwg a chraffu ar Bortffolios Cabinet penodol a'u priod wasanaethau.

Ar ben hynny, er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u rhaglenni gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn penderfynu yn ystod blwyddyn y cyngor a alluogodd i Bwyllgorau Craffu fod yn rhagweithiol wrth ryngweithio â Blaengynllun Gwaith y Cabinet, a chraffu ar faterion perthnasol o'r dechrau.

Cyfeiriwyd hefyd at adolygiad Archwilio Cymru o drefniadau trosolwg a chraffu'r Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 a oedd wedi argymell rhoi prosesau ar waith i alluogi asesu effeithiolrwydd ac effaith trosolwg a chraffu. Yn unol â hynny, roedd y Cyngor yn symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

CHAIR

DATE